LLANGATWG

Llangatwg < 7.4km/4.6m > Llangynidr < 5.6km/3.4m> Talybont <2.4km/1.5m> Pencelli <4.5km/2.5m> Brynich <4.5km/2.5m> Aberhonddu

LLWYBR ODYNAU CALCH Y GAMLAS

CALCHFAEN

O ble mae'n dod?

Mae haen o galchfaen yn rhedeg ar hyd Bannau Brycheiniog. Ffurfiwyd y garreg hon o weddillion miliynau o greaduriaid môr a suddodd i waelod môr trofannol bas dros 300 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Anodd credu hyn ond mae'n wir!

Rydym ni'n gwybod fod calchfaen wedi ei gloddio a'i losgi yma ers yr Oesoedd Canol, gan fod odyn galch yn dyddio yn ôl i'r 13 ganrif i'w gweld yng nghastell Carreg Cennen, ar ochr orllewinol y Parc Cenedlaethol.

Roedd calchfaen yn cael ei gloddio ar safleoedd ar draws Bannau Brycheiniog. Roedd y garreg yn cael ei chwythu gyda phowdwr gwn, ei falurio'n ddarnau maint dwrn gan forthwylion, ac yna ei gludo ymaith mewn certi.

Os ewch chi i archwilio unrhyw un o'r chwareli, cewch weld sut oedd amodau gwaith y chwarelwyr bryd hynny.

CHWARELI

Hyd yn oed ar dywydd braf, mae'r chwareli'n gallu bod yn safleoedd agored a gwyntog. Ceisiwch fynd yno mewn tywydd garw, ac fe welwch chi hyd yn oed wrth wisgo dillad cynnes, gwrth-ddŵr modern, bod y tywydd yn eithafol....

nawr dychmygwch y chwarelwyr yn gweithio yma drwy'r flwyddyn yn y fath dywydd. Ychydig o gysgod oedd yno a fawr ddim sylw yn cael ei roi i iechyd a diogelwch. Roedd damweiniau'n digwydd yn aml, a'r gweithwyr yn cael eu hanafu neu eu lladd. Roedd yn rhaid i'r gweithwyr gerdded i'r gwaith o drefi a phentrefi cyfagos, ac roedd hyn yn ychwanegu at galedi'r diwrnod gwaith.

I beth mae calch yn cael ei ddefnyddio?

Roedd llawer o'r calch a gynhyrchwyd yn yr odynau ar hyd y gamlas yn cael ei ddefnyddio mewn amaethyddiaeth.

Sefydlwyd y Gymdeithas Amaethyddol gyntaf yng Nghymru yn Sir Frycheiniog yn 1755.

CYNNYRCH AMLDDEFNYDD

Eu gwaith nhw oedd hybu arferion mwy effeithlon mewn amaethyddiaeth, a darparu bwyd o ansawdd gwell ar gyfer poblogaeth oedd yn tyfu. Mae calch sy'n cael ei daenu ar dir yn niwtraleiddio gormodedd o asid yn y pridd, ac yn gwneud y tir yn fwy ffrwythlon a chynhyrchiol. Mae angen sawl tunnell o galch ar gyfer pob acer, felly gallwch ddychmygu bod angen llawer iawn o galch ar bob ffermwr.

Manteision ardal tebyg i Dde Cymru, lle'r oedd digonedd o lo a chalchfaen ar gael, oedd i odynau calch gael eu hadeiladu ym mhobman. Roedd y glo rhad yn golygu bod calch ar gael i bawb. Roedd calch yn cael ei ddefnyddio i wneud morter. Morter yw'r defnydd gludiog sy'n cael ei ddefnyddio i lynu brics neu gerrig wrth ei gilydd mewn adeiladau. Roedd morter calch yn boblogaidd iawn hyd nes i sment Portland ei ddisodli yn y 19 ganrif.

AIL DDARGANFOD CALCH

Yn ddiweddar, sylweddolwyd manteision defnyddio morter calch mewn hen adeiladau neu brosiectau treftadaeth. Mae morter calch yn hyblyg ac athraidd, ac mae ei effeithiolrwydd fel defnydd adeiladu wedi cael ei ailddarganfod. Does ond rhaid i ni edrych ar y nifer fawr o hen adeiladau sy'n dal ar eu traed i sylweddoli fod gan forter calch gryfder a gwydnwch.

Mae calch wedi ei ddefnyddio ers amser maith fel gwynnydd. Drwy ei falu'n bowdwr mân, gellir ei ddefnyddio wrth gynhyrchu papur, past dannedd, paent, glud, tabledi meddygol a chynnyrch glanhau. Gan fod ganddo ymdoddbwynt uchel, gellid ei losgi i greu golau gwyn llachar.

Roedd calch yn cael ei ddefnyddio i oleuo perfformiadau theatr. Dyma beth ydi tarddiad yr ymadrodd Saesneg *'in the limelight'*.

ODYNAU CALCH HEDDIW

Mae'r holl odynau calch welwch chi ar eich taith yn segur ers blynyddoedd, ac yn amrywio o ran eu cyflwr. Dim ond rhai ohonyn nhw sydd yn ddigon cyfan i weld sut roedden nhw'n gweithio.

Pwy sy'n gofalu am yr odynau calch?

Yr Ymddiriedolaeth Camlas ac Afon sy'n gofalu, ac yn berchen ar nifer o'r odynau calch sydd ar hyd Camlas Brycheiniog a Mynwy.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu prosiectau i ddiogelu a dehongli'r odynau calch, ac maen nhw'n recriwtio gwirfoddolwyr er mwyn eu hyfforddi mewn technegau morter calch.

Mae'r adeileddau yn cael eu hadnewyddu drwy ddefnyddio'r un cynnyrch a thechnegau a ddefnyddiwyd pan grëwyd yr odynau calch cyntaf.

Bywyd newydd

Allwn ni ddim ond dychmygu sut roedd yr odynau calch yn edrych yn eu hanterth. Heddiw, maen nhw'n llonydd a thawel, ac yn aml wedi eu

BYWYD NEWYDD

gorchuddio gan natur; yn y gorffennol bydden nhw wedi bod yn lleoedd swnllyd, budr a pheryglus. Ceisiwch ddychmygu'r odynau a gweithwyr yn brysio heibio gyda llwythi o galchfaen a glo, yn cyfarch ei gilydd wrth fynd ymlaen â'u gwaith. Mae'r odynau calch wedi dod yn gartref i fywyd gwyllt hefyd.

Maen nhw wedi profi i fod yn gynefin rhagorol i ystlumod. Addaswyd odynau oedd wedi eu hadnewyddu'n ddiweddar, yn glwydi, ac mae'r rhain wedi denu'r ystlumod pedol lleiaf prin. Mae calch yn dal i gael ei ddefnyddio'n helaeth, ond erbyn hyn, mae meintiau mawr ohono'n cael ei gynhyrchu mewn safleoedd diwydiannol penodol - anaml y gwelwn ni nhw na chlywed amdanyn nhw.

Yn y gorffennol, byddai cynhyrchu calch wedi bod yn gyfarwydd i nifer o bobl, ond nawr, fel nifer o brosesau eraill, mae'n cael ei guddio o'r golwg am resymau diogelwch.

Dyluniwyd gan Lisa Hellier • www.arthousegraphics.co.uk • 01239 891 333